

Y CRIW Mentrus



Cynradd Is

Gweithgaredd 2: Beth allwn ni ei wneud?

Amcan Dysgu

Creu syniadau ar gyfer prosiect menter.

Nodweddion Entrepreneuriaeth

Creadigedd

- Datrys problemau
- Meddwl dargyfeiriol
– creu syniadau
- Arloesi

Cysylltiadau

- Trafod, darbwyllo a dylanwadu

Trefniadaeth

- Gwneud penderfyniadau

Gweithgareddau Dysgu

Eglurwch wrth y dosbarth eu bod yn mynd i gymryd rhan mewn prosiect sef Y Criw Mentrus a chael cyfle i fod yn 'entrepreneuriaid' go iawn.

Cyflwynwch y dosbarth i'r Criw Mentrus: Amy (ar gyfer agwedd), Rhian (ar gyfer cysylltiadau) Callum (ar gyfer creadigedd) ac Owain (ar gyfer trefniadaeth).

Eglurwch eu bod yn cael cyfle i gymryd rhan yn her Y Criw Mentrus h.y meddwl am brosiect menter i ateb gofynion yn yr ysgol neu'r gymuned .

Gan ddefnyddio syniadau o blith y galwedigaethau a nodwyd yng ngweithgaredd 1, anogwch y disgyblion i feddwl am syniadau am gynnyrch y gallent ei wneud neu wasanaeth y gallent ei ddarparu. Gallai hyn fod yn gysylltiedig â digwyddiad priodol yng nghalendr yr ysgol. Gofynnwch i'r disgyblion ystyried.

- "Pa ddigwyddiadau sydd ar ddod?" e.e. Nos Galan Gaeaf, ffair Nadolig.
- "Beth ydyn ni'n ei wneud yn dda?"
- "Sut allwn ni ddefnyddio'n sgiliau?"
- "Beth fuasai pobl yn hoffi ei brynu?"

Gan weithio mewn grwpiau, gofynnwch i'r disgyblion feddwl am eu syniadau am gynnyrch neu wasanaeth. Cyn iddynt ddechrau creu syniadau, atgoffwch y disgyblion fod pob syniad yn dda, gorau pa mor greadigol y gallant fod. Efallai y byddant yn cyfuno syniadau yn y pen draw.

Gweithgaredd 2:

Beth allwn ni ei wneud?

Cynradd Is

Cofnodwch hoff syniad pob grŵp a'u harddangos yn y dosbarth.

Gofynnwch i'r plant feddwl am a thrafod y syniadau cyn cytuno yn ddemocrataidd ar eu hoff syniad.

Mae pob grŵp o ddisgyblion yn cyflwyno eu syniad gorau i weddill y dosbarth gan roi'r rhesymau dros eu dewis. Oherwydd bod hwn yn gyfle da ar gyfer asesiad cymheiriaid gofynnwch i ddisgyblion eraill roi adborth adeiladol.

Cynhaliwch bleidlais i gyrraedd penderfyniad y dosbarth am y cynnyrch / gwasanaeth gorau.



Canlyniad dysgu

Mae'r disgyblion yn gallu gweithio gydag eraill i greu amrediad o syniadau syml ar gyfer prosiect menter.



Adnoddau sydd eu hangen

- Bwrdd gwyn rhyngweithiol
- Calendr ysgol

Cwricwlwm ar gyfer Cymru

1. Meysydd Dysgu a Phrofiad

Iechyd a lles

- Mae ein penderfyniadau yn effeithio ar ansawdd ein bywydau a bywydau eraill.

Gwyddoniaeth a Thechnoleg

- Mae syniadau dylunio a pheirianeg yn cynnig ffyrdd technegol a chreadigol i ateb gofynion ac anghenion cymdeithas.



Sgiliau Trawsgwricwlaidd

1. Llythrennedd

Siarad

- Eglurder a geirfa
- Diben
- Ymddiddan cydweithredol
- Cwestiynu

Gwrando

- Gwrando ar gyfer ystyr
- Gwrando ar gyfer deall
- Gwrnado fel rhan o ymddiddan cydweithredol

